Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Cronfa Bensiynau CLWYD Pension Fund

# Cronfa Bensiynau Clwyd

# Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Chwefror 2024



# Tudalen Cynnwys


Cyflwyniad ..... 3

I bwy mae'r polisi hwn yn berthnasol ..... 3

Nodau ac Amcanion ..... 3

Diffiniadau ..... 4

Cyd-destun cyfreithiol a chysylltiedig ..... 4

- Deddf Cydraddoldeb 2010 ..... 4
- Y Rheoleiddiwr Pensiynau ..... 4
- Deddf Llywodraeth Leol 2000 ..... 5

Gofynion Eraill ar yr Awdurdod Gweinyddu ..... 5

Rôl y Cadeirydd ..... 5

Cyflawni ein nodau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ..... 5

Monitro cynnydd yn ôl nodau ac amcanion ein Polisi ..... 6

Adrodd ..... 6

Cymeradwyo ac Adolygu ..... 6

Rhagor o Wybodaeth ..... 7

# Cyflwyniad

Dyma Bolisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Cronfa Bensiynau Clwyd ("y Gronfa"), sy'n rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a reolir ac a weinyddir gan Gyngor Sir y Fflint ("yr Awdurdod Gweinyddu").

Datganiad o Fwriad y Gronfa yw:

- cael ein hadnabod fel sefydliad blaengar, ymatebol, rhagweithiol a phroffesiynol sy'n cynnig gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, sydd ag enw da ac sy'n gredadwy, i'r holl gwsmeriaid
- meithrin diwylliant corfforaethol o ymwybyddiaeth o risg a llywodraethu ariannol, a darparu gwasanaethau nodedig o'r safon uchaf o fewn adnoddau'r gyllideb
- gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid, gan ganolbwyntio ar atebion, gydag ymagwedd sy'n credu yn ein gallu i gyflawni

Mae gan y Gronfa nifer o amcanion o fewn ei strategaethau a'i pholisïau allweddol. Dyma'r rhai sydd fwyaf perthnasol i'r polisi hwn:

- sicrhau ein bod yn defnyddio'r dulliau mwyaf priodol o gyfathrebu, gan ystyried gwahanol anghenion y gwahanol fudd-ddeiliaid, ond gan ffafrio defnyddio gohebiaeth electronig os yw'n effeithlon ac yn effeithiol gwneud hynny
- gweithredu'n onest a bod yn atebol i'n budd-ddeiliaid am ein penderfyniadau, gan sicrhau eu bod yn gadarn a bod sail dda iddynt

# I bwy mae'r polisi hwn yn berthnasol

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl aelodau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau a'r Bwrdd Pensiynau, gan gynnwys cynrychiolwyr y cyflogwyr ac aelodau'r cynllun, p'un ai ydynt yn aelodau â phleidlais ai peidio. Mae'n berthnasol i Dîm Rheoli'r Gronfa Bensiynau ac uwch swyddogion Cyngor Sir y Fflint ar y Panel Ymgynghorol, (a elwir ar y cyd yn "uwch swyddogion y Gronfa" yn y Polisi hwn).

# Nodau ac Amcanion

Mewn perthynas â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, ein nod yw sicrhau, hyd y gallwn, bod y rhai sy'n ymwneud â rheoli'r Gronfa, gan gynnwys y Bwrdd Pensiynau a Phwyllgor y Gronfa Bensiynau, yn cynnwys unigolion ag amrywiaeth eang o nodweddion, profiadau bywyd, arbenigedd a sgiliau. Credwn y bydd gwneud hyn yn arwain at:

- broses wneud penderfyniadau fwy effeithiol sy'n adlewyrchu anghenion a gwerthoedd yr aelodau
- proses wneud penderfyniadau well sydd o fudd i'r aelodau a'r cyflogwyr
- gwell dealltwriaeth, dirnadaeth ac empathi tuag at fuddiolwyr y cynllun mewn meysydd lle mae angen arfer disgresiwn
- cyfathrebu'n well â chyflogwyr ac aelodau'r cynllun

# Diffiniadau

Rydym wedi cytuno ar y diffiniadau canlynol mewn perthynas â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant:

**Cydraddoldeb** ar gyfer y Gronfa. Mae cydraddoldeb yn ymwneud â sicrhau bod gan bob aelod a chyflogwr yr un hawl i wybodaeth am y Gronfa, y buddion y mae'n eu cynnig a'r hyn y mae'r Gronfa ei angen ganddynt i weinyddu'r buddion.  Mae'r Gronfa hefyd yn cydnabod y gall gwella amrywiaeth ymysg yr unigolion sy'n ymwneud â rheoli'r Gronfa, gan gynnwys swyddogion ac aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd, arwain at wella cydraddoldeb.

**Amrywiaeth**: Mae'r Gronfa o'r farn bod amrywiaeth yn ymwneud â phob nodwedd sy'n gwneud unigolion yn wahanol; o nodweddion gwarchodedig fel oedran, anabledd, hil, crefydd, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol, i nodweddion ehangach fel cefndir economaidd-gymdeithasol, profiadau bywyd, lefelau addysg ac ieithoedd.

**Cynhwysiant:** Nod y Gronfa yw creu amgylchedd lle gall yr holl unigolion sy'n ymwneud â rheoli'r Gronfa ffynnu a chyrraedd eu llawn botensial.

# Cyd-destun cyfreithiol a chysylltiedig

## Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwarchod pobl yn gyfreithiol rhag gwahaniaethu yn y gweithle ac yn y gymdeithas ehangach.  Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus penodol sy'n berthnasol i'r Cyngor, ac felly i'r Gronfa. Mae'r ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus ystyried yr angen i:

- ddiddymu neu leihau'r anfanteision y mae pobl yn eu hwynebu oherwydd nodwedd warchodedig,
- bodloni anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig, ac
- annog pobl â nodweddion gwarchodedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu weithgareddau eraill.

## Y Rheoleiddiwr Pensiynau

Mae canllawiau'r Rheoleiddiwr Pensiynau ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn awgrymu y dylai'r awdurdod gweinyddu ddatblygu a chynnal Polisi sy'n cynnwys:

- diffiniad pendant o Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant,
- nodau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gronfa, a
- chynllun hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer y Gronfa.

Mae Cod Cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiynau hefyd yn amlinellu'r disgwyliadau canlynol ar gyfer y "corff llywodraethu", er enghraifft, y rhai sy'n gyfrifol am redeg y cynllun:

- bod yn gytbwys ac yn amrywiol, gyda'i aelodau'n dangos gwahanol sgiliau, gwybodaeth a phrofiad
- efallai yr hoffai ystyried dulliau arfer da i sicrhau bod ei arferion recriwtio'n gynhwysol
- adolygu ei aelodaeth yn rheolaidd i sicrhau amrediad amrywiol o aelodau sydd â gwahanol brofiadau a sgiliau technegol

Mae'r Polisi yn ceisio mynd i'r afael â disgwyliadau'r Rheoleiddiwr pan fo'n ymarferol gwneud hynny o fewn trefniadau llywodraethu cronfeydd y cynllun pensiwn awdurdod lleol.

### Deddf Llywodraeth Leol 2000

Mae gofyn i bob un o aelodau Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd gydymffurfio â Chod Ymddygiad yr Aelodau fel y nodir yng Ngorchymyn Ymddygiad Aelodau (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008, fel y'i diwygiwyd, a wnaed dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

## Gofynion Eraill ar yr Awdurdod Gweinyddu

Yn ogystal â gofynion y Polisi hwn, rhaid i bawb sy'n ymwneud â rheoli'r Gronfa, y mae'r polisi hwn yn berthnasol iddynt, roi ystyriaeth i:

- Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Cyngor Sir y Fflint
- Codau Ymddygiad Cyngor Sir y Fflint o fewn y Cyfansoddiad
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir y Fflint

Wrth gael eu penodi neu eu hail-benodi, bydd pob un o aelodau'r Bwrdd Pensiynau neu Bwyllgor y Gronfa Bensiynau nad ydynt yn aelodau nag yn gweithio i Gyngor Sir y Fflint, yn cael copi o bolisïau'r Cyngor sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a gofynnir iddynt gadarnhau y byddant yn cadw atynt.

## Rôl y Cadeirydd

Gall Cadeiryddion Pwyllgor y Gronfa Bensiynau a'r Bwrdd Pensiynau ill dau chwarae rhan allweddol mewn gwreiddio nodau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gronfa mewn perthynas â sut y cynhelir cyfarfodydd y Pwyllgor a'r Bwrdd. Darperir cymorth a hyfforddiant yn ôl yr angen i helpu'r Cadeiryddion gyflawni'r rôl honno.

## Cyflawni ein nodau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Dyma'r camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni nodau'r Polisi hwn:

- Annog amrywiaeth a chynhwysiant ymysg y rhai sy'n ymwneud â rheoli'r Gronfa (gan nodi mai'r Cyngor perthnasol sy'n pennu'r Aelodau Etholedig ar y Pwyllgor), a hynny drwy:
  - broses benodi aelodau'r Bwrdd a chynrychiolwyr y cyflogwyr ac aelodau'r cynllun ar y Pwyllgor

    - nodi cyfnodau aelodau'r Bwrdd ac aelodau cyfetholedig y Pwyllgor yn y swydd
    - ystyried Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant o safbwynt y Gronfa wrth recriwtio uwch swyddogion, cyn belled ag nad yw hynny'n mynd yn groes i bolisïau'r Cyngor
- Helpu pawb sy'n ymwneud â rheoli'r Gronfa i ddeall rhagfarn ddiarwybod a manteision y Polisi drwy hyfforddiant a dulliau eraill
- Annog ymddygiad cynhwysol a darparu amgylchedd cefnogol ar gyfer trafodaethau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor, y Bwrdd a'r Uwch Reolwyr, gan annog aelodau i gyfrannu i'r drafodaeth waeth beth fo lefel eu harbenigedd
- Mynd ati i ystyried penderfyniadau o safbwynt amrywiaeth a chynhwysiant, a hynny mewn perthynas ag arfer disgresiwn awdurdod gweinyddu hefyd pan fo hynny'n briodol
- Sicrhau y meddylir am ystyriaethau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wrth ddatblygu neu adolygu ein polisïau a'n strategaethau, p'un ai yw'r rhain yn ymwneud â gweinyddu, cyfathrebu, llywodraethu, ariannu neu fuddsoddi
- Ystyried polisïau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y bobl y byddwn yn ymgynghori ac yn cydweithio â nhw fel rhan o'r broses gaffael

## Monitro cynnydd yn ôl nodau ac amcanion ein Polisi

Byddwn yn monitro ein cynnydd tuag at gyflawni nodau ein polisi fel a ganlyn:

- Gofyn i'r aelodau a'r cyflogwyr sut rydym yn adlewyrchu gwerthoedd y Polisi wrth geisio adborth ar ein cymorth a'n dulliau cyfathrebu
- Cynnwys cwestiynau am Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant fel rhan o'r adolygiad effeithiolrwydd rheolaidd a gynhelir ar gyfer y Bwrdd Pensiynau a'r Pwyllgor
- Cynnwys cwestiynau am nodweddion a blaenoriaethau personol fel rhan o'r dadansoddiad o anghenion hyfforddi rheolaidd a gynhelir ar gyfer y Bwrdd Pensiynau a'r Pwyllgor
- Ceisio adborth penodol ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gan arsylwyr allanol mewn cyfarfodydd pan fo hynny'n briodol, er enghraifft gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor

## Adrodd

Adroddir ar gynnydd yn erbyn nodau ac amcanion ein Polisi a chanllawiau perthnasol yn yr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol, fel rhan o adroddiad yr Ymgynghorydd Annibynnol.

## Cymeradwyo ac Adolygu

Adolygwyd a chymeradwywyd y Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant hwn gan Bwyllgor y Gronfa Bensiynau ar 28 Chwefror 2024.  Caiff ei adolygu a'i ddiweddaru'n ffurfiol bob tair blynedd o leiaf, neu'n gynharach os bydd unrhyw faterion sydd wedi'u cynnwys

ynddo'n haeddu cael eu hailystyried, gan gynnwys os bydd unrhyw newidiadau i ofynion y Cyngor neu i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu Reoliadau neu Ganllawiau perthnasol eraill y mae angen eu hystyried.

## Rhagor o Wybodaeth

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch chi am unrhyw beth yn y Polisi hwn neu'n gysylltiedig â'r Polisi hwn, cysylltwch â:

Phillip Latham, Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd, Cyngor Sir y Fflint

**E-bost:** Philip.latham@siryfflint.gov.uk

**Ffôn:** 01352 702264

**cronfabensiynauclwyd.org.uk**

**Cronfa Bensiynau Clwyd, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6NA**

Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd ac rydym ni'n defnyddio eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaeth gweinyddu pensiynau i chi. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data, gyda phwy rydym yn ei rannu, a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch data, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan.